



Rhaglen Gyflawn

Gwasanaethau Democraidd
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad ac Amser

10.15 y.b., DYDD IAU, 6ED CHWEFROR, 2020

Lleoliad

Siambwr Hywel Dda, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 29 Ionawr 2020)

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

AELODAETH (18)

Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Linda Morgan
Gruffydd Williams
Dafydd Owen

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Simon Glyn

Aled Wyn Jones
Gethin Glyn Williams
Berwyn Parry Jones

Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Kevin Morris Jones
Elwyn Jones
Angela Russell

Mike Stevens
Elfed Powell Roberts

Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Robert Glyn Daniels

Owain Williams

Aelod Unigol (1)

Y Cynghorydd

Stephen W. Churchman

Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

R H A G L E N

1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

4. COFNODION

4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 5ed o Ragfyr 2019 fel rhai cywir

5. GORFODAETH STRYD

10 - 11

Aelod Cabinet: Cynghorydd Catrin Wager

6. YMATEB I ARGYMHELLION YMCHWILIAD CRAFFU 12 - 14 GORFODAETH GWASTRAFF

Aelod Cabinet : Cynghorydd Catrin Wager

Derbyn adroddiad gan yr Aelod Cabinet ar weithredu argymhellion yr Ymchwiliad Craffu

7. CYNLLUNIO A'R CYNLLUN DIRPRWYO (ADRODDIAD MONITRO 15 - 38 AR WEITHREDIAD Y CYNLLUN DIRPRWYO NEWYDD)

Aelod Cabinet: Cynghorydd Gareth Griffith

Pwyllgor Craffu Cymunedau 5 Rhagfyr 2019

YN BRESENNOL: Y Cyngorydd Elfed Roberts (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Gethin Glyn Williams (Is-gadeirydd)

Y CYNGHORWYR: Glyn Daniels, Berwyn Parry Jones, Elwyn Jones, Kevin Morris Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Angela Russell, Owain Williams a Gruffydd Williams

SWYDDOGION: Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

HEFYD YN BRESENNOL:

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen – Catherine Roberts (Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen – Arweinydd y Cyngor - Cyngorydd Dyfrig Siencyn a Nonn Hughes (Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn)

Mewn perthynas ag eitem 7 ar y rhaglen - Cyngorydd Catrin Wager (Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol / Ymgynghoriaeth Gwynedd), Huw Williams (Pennaeth Ymgynghoriaeth Gwynedd) a Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), Cyngorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) a Ffion Madog Evans (Uwch Reolwr Cyllid)

Mewn perthynas ag eitem 8 ar y rhaglen - Cyngorydd Gareth Griffiths (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd),

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr Stephen Churchman, Elwyn Edwards, Simon Glyn, Annwen Hughes, Aled W Jones, Linda Morgan a Mike Stevens

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelod canlynol fuddiant personol, yn yr eitem ganlynol am y rheswm a nodir:

- Y Cyngorydd Gethin Glyn Williams yn eitem 8 ar y rhaglen oherwydd bod ganddo berthynas sydd yn berchennog tŷ haf

Roedd yr Aelod o'r farn ei fod yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu a gadawsant y Siambr yn ystod y drafodaeth.

3. MATERION BRYN

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar Fedi 26ain 2019 fel cofnod

cywir o'r cyfarfod.

5. DIWEDDARIAD BLYNYDDOL GAN Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL (GWYNEDD A MÔN)

Cyflwynwyd adroddiad gan Uwch Swyddog Gweithredol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn yn diweddarau'r Pwyllgor ar faes gwaith y Bartneriaeth. Eglurwyd bod gofyn i'r Bartneriaeth adrodd yn ffurfiol i'r Pwyllgor yn flynyddol i gyflwyno trosolwg o brif ddatblygiadau strategol y Bartneriaeth dros y flwyddyn ynghyd a'r gwaith comisiynu sydd yn gosod fframwaith i'r blaenoriaethau sydd yn seiliedig ar asesiad strategol. Ategwyd bod hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiaadau yn unol ag adrannau Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006, drwy gydweithio gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Tynnwyd sylw at y prif negeseuon oedd yn deillio o weithgarwch 2018/2019 ynghyd a phrif lwyddiannau'r flwyddyn.

Amlygwyd y prif gerrig milltir ar gyfer 2019 – 2020 a gofynnwyd i'r Pwyllgor Craffu gefnogi'r blaenoriaethau oedd wedi eu rhestru yn yr adroddiad ynghyd â chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chynnydd o 13.5% yn y troseddau sy'n seiliedig ar ddiodefwyr yng Ngwynedd, dengys y dadansoddiad mai cynnydd yn effeithlonrwydd yn broses o gofnodi'r troseddau yw hyn yn hytrach na chynnydd yn y nifer troseddau. Ategwyd bod y newidiadau i'r broses o gofnodi rhai achosion, megis stelcio ac aflonyddu wedi cyfrannu at y cynnydd oherwydd bellach mae pob cam o'r drosedd /achos perthnasol yn cael ei gyfrif yn hytrach nac fel un trosedd / achos. Nodwyd hefyd bod cynnydd yn y nifer o bobl sydd yn dod ymlaen i adrodd ar droseddau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r Grwpiau Mwyaf Tebyg, sef Grŵp o Siroedd tebyg o ran lefelau troseddu, adroddwyd bod 8 sir yn y grŵp a bod gwybodaeth lawn am y grŵp ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref. Ategwyd bod y wybodaeth yn cael ei ddiweddarau yn chwarterol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â bwriad y defnydd o geisio adnabod safle newydd ym Mangor ar gyfer triniaeth cam-ddefnyddio sylweddau, cywirwyd y sylw mai adeilad i'r gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau weithio ynddo yw'r bwriad sydd yn gynllun sydd yn cael ei arwain gan y Bwrdd Iechyd.

Mewn ymateb i statws cwblhau hyfforddiant ar gam-drin domestig yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru adroddwyd bod gweithredu'r hyfforddiant yn heriol a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod holl staff y Cyngor yn cwblhau haen safonol yr hyfforddiant. Nodwyd bod yr hyfforddiant yn statudol a'i fod yn cael ei gyflwyno drwy wasanaeth E-ddysgu - ategwyd bod angen ceisio ffyrdd gwell o gyrraedd y nod ac ystyried dulliau arloesol i wneud hynny. Bydd y Cyngor yn adrodd i Lywodraeth Cymru ar y nifer sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant a'r Uned Dysgu a Datblygu yn cadw cofnod.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â phryderon dylanwad gangiau ar gymunedau lleol, adroddwyd bod yr Heddlu yn gweithio yn galed i daclo County Lines. Awgrymwyd y byddai'n fuddiol i'r heddlu gyflwyno gwybodaeth ar y gwaith i'r Aelodau.

PENDERFYNWYD

- **derbyn yr adroddiad**
- **cefnogi blaenoriaethau a chyfeiriad gwaith y Bartneriaeth i'r dyfodol.**

6. STRWYTHUR LLYWODRAETHIANT A THREFNIADAU CYFLAWNI BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Dyfrig Siencyn yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd dros y 6 mis diwethaf gan Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Atgoffwyd yr aelodau bod y Bwrdd wedi cytuno ar feysydd blaenoriaeth fyddai'n gwella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y ddwy sir ac wedi sefydlu is-grwpiau i weithredu swyddogaethau'r Bwrdd.

Adroddwyd bod y Bwrdd yn derbyn yr angen i ganolfwyntio ar yr hyn y gellid ei gyflawni yn yr hinsawdd sydd ohoni gan fod adnoddau'r corff cyhoeddus o dan bwysau a bygythiadau pellach mewn arbedion. Er hynny, drwy gydweithio gellid manteisio ac adnabod cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd gwahanol a chyflwyno dulliau arloesol o weithredu.

Rhodddwyd diweddariad byr ar y datblygiadau o fewn y chwe maes blaenoriaeth.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- Tlodi – mynegwyd siom a phryder nad oedd is-grŵp yn arwain ar y gwaith yn bresennol
- Awgrym i adolygu cyfansymiau rent tai cymdeithasol
- Bod angen cynnwys cefnogaeth i deuluoedd / gofalwyr ym maes gwaith lechyd a Gofal Oedolion
- Newid Hinsawdd - graddfa'r effaith angen mwy o gefnogaeth. A yw'r Llywodraeth yn ymateb i'r hyn y mae'r Bwrdd yn ceisio ei weithredu?
- Newid Hinsawdd yn fater byd eang ond, ym maes llifogydd a oes modd addysgu pobl ynglŷn â'r effaith / i arafu newid hinsawdd yn hytrach na derbyn bod hyn yn digwydd?
- O ystyried tangyflawniad Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, angen sicrhau bod blaenoriaethau'r Is-grŵp lechyd yn cael eu harwain yn effeithiol gan gynrychiolydd o'r Bwrdd lechyd

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sicrhau arweiniad effeithiol ar yr agweddau iechyd nodwyd bod yr is-grŵp yn cyfarch dwy flaenoriaeth a bod y Bwrdd lechyd a'r ddwy Sir yn cydweithio yn arbennig o dda. Ategwyd mai rôl yr Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd lechyd yw darparu gwasanaeth effeithiol ac mai rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw ychwanegu gwerth i'r hyn sydd eisoes yn digwydd gan y cyrff cyhoeddus yn unigol.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â diffyg gwaith yn y maes tlodi, nodwyd mai trefniadau budd-daliadau Llywodraeth San Steffan a'u gallu cyllidebol sydd yn creu sefyllfaoedd o dlodi ac mai cyfyng yw gallu'r Awdurdod Lleol i adnabod darn o waith / prosiect penodol i geisio gwneud argraff yn y maes. Derbyniwyd y sylw bod gwaith angen ei wneud i adnabod maes gwaith /darganfod prosiectau all gyflawni a gwneud gwahaniaeth. Mewn perthynas a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus cytunwyd i ystyried y gwaith sydd eisoes ar y gweill gan yr Awdurdodau Lleol yn y maes tlodi cyn ystyried beth gall y Bwrdd wneud i ychwanegu gwerth i hynny. Bydd yr Awdurdodau Lleol yn darparu cyflwyniad ar gynnydd yn y maes tlodi yn ystod cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mawrth.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â gwir effaith Newid yr Hinsawdd, nodwyd bod Ymgynghori aeth Gwynedd eisoes yn gwneud gwaith da yn lleol a'r dyletswyddau hynny yn cynyddu wrth i'r broblem gynyddu. Awgrymwyd bod Llywodraeth Cymru drwy gydweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru wedi newid agwedd tuag at y problemau yn genedlaethol. Ategwyd bod datrysiadau i rai problemau yn sylweddol a thu hwnt i'r gallu i unrhyw awdurdod lleol ei gyflawni ar ben ei hun.

Derbyniwyd yr awgrym bod modd 'addysgu pobl' fod yn faes y gellid ei fabwysiadu yn hytrach nag ymateb i'r sefyllfa yn unig

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â phwy sydd yn monitro gwaith yr is-grwpiau, adroddwyd bod Tîm Cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sicrhau bod cynnydd yng ngwaith yr is-grwpiau ac yng nghyfarfodydd chwarterol o'r Bwrdd, bydd yr adroddiadau cynnydd yn cael eu herio. Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a risgiau a sut bydd disgwyl i adroddiad ar dlodi gael ei gyflwyno yn Rhagfyr 2019 os nad oes is-grwp yn arwain ar y gwaith, nodwyd y bydd cofrestr risg yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Bwrdd. Yn ogystal bydd yr Awdurdodau Lleol yn rhoi diweddariad are u cynlluniau tlodi.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad

7. CYNIGION ARBEDION YR ADRAN AMGYLCHEDD, ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YR ADRAN YMGYNGHORIAETH I DDYGYMOD GYDA'U CYFRAN O'R BWLCH £2M POSIB YNG NGHYLLIDEB 2020/2021

Cyflwynwyd adroddiad yn manylu ar gynigion arbedion fyddai'n cyfrannu tuag at y bwch ariannol posib yng nghyllideb 2020/21. Atgoffwyd yr Aelodau nad yw'r grant blynyddol, a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn ddigonol ers y 12 mlynedd diwethaf ac o ganlyniad wedi arwain at sefyllfa lle mae'r Cyngor yn gorfod cynllunio ar gyfer llenwi'r bwch ariannol. Ar gyfer 2020/21 penderfynwyd cynllunio ar gyfer bwch £2m gan ofyn i'r holl adrannau ddarganfod eu cyfraniad hwy i'r swm. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cynigion yr Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac yr Adran Ymgynghoriaeth ynghyd a'r goblygiadau.

Ymhelaethodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid yr Adrannau ar gynnwys yr adroddiad, gan ymateb i gwestiynau / sylwadau gan yr Aelodau. Diolchodd yr Aelodau Cabinet i'r Adrannau am ddarganfod arbedion pellach na fyddai'n effeithio yn uniongyrchol ar drigolion Gwynedd.

Arbedion Adran Ymgynghoriaeth

Croesawu'r ymarfer o gynyddu'r adnoddau o fewn Unedau Ymgynghoriaeth Gwynedd i alluogi'r Adran i gynyddu incwm sydd o ganlyniad yn cadw pobl yn gyflogedig mewn swyddi sgiliau uchel o fewn y Sir drwy gyfrwng y Gymraeg.

Arbedion Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

Mewn ymateb i awgrym ynglŷn ar gallu i leihau / dorri i lawr gostau contractio allanol fel bod modd i gwmnïau llai / lleol gystadlu am y gwaith (o dan y rhiniog) derbyniwyd y gellid gwneud mwy i gadw'r budd yn lleol a rhoi cyfleoedd i fusnesau lleol ymgeisio am y gwaith.

Mewn ymateb i wybodaeth ynglŷn â chost a threfniant gwastraff masnachol eglurwyd bod yr Adran yn gwasanaethu dros 2,000 o fusnesau ar draws Gwynedd drwy roi cynnig unigryw i ailgylchu neu waredu eu gwastraff gweddilliol. Bydd y gwasanaeth yn dewis a dethol gwastraff y gellid eu hailgylchu ym Mharc Adfer yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy. Ategwyd bod hwn yn rhoi cyfle i'r Adran wella'r gwasanaeth drwy ddenu ac annog mwy o gwmnïau i aros. Nodwyd hefyd y bydd deddf newydd yn gofyn i Awdurdodau Lleol ailgylchu mwy a bydd y trefniant presennol o ailgylchu gwastraff masnachol yn fantais i Wunedd. Y bwriad yw cynnig gwasanaeth gwyrdd / cyfrifol gan edrych i ddatblygu'r gwasanaeth yma ymhellach

Arbedion Adran Amgylchedd

Mewn ymateb i frawddeg bod 'yr effaith ar drigolion yn lleihau oherwydd cydweithio agosach gyda'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol', ac y dylai hyn fod yn ffordd naturiol o weithio beth bynnag, nodwyd bod yr Adrannau yn cynnal trafodaethau traws adrannol i geisio adnabod cyfleoedd o gydweithio o fewn meysydd cyffredin fel bod modd osgoi dyblygu gwaith.

Sylwadau cyffredinol:

- Ystyried arbedion drwy ddefnyddio ymgynghorwyr lleol yn hytrach na rhai allanol
- Gosod dirwy am dorri amodau cynllunio – hyn yn gyfle i greu incwm.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo cynigion yr adrannau i gwrdd â'u cyfran o arbedion perthnasol

8. TAI HAF A CHYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad gan Pennaeth Cynorthwyol yr Amgylchedd yn diweddarau'r Pwyllgor ar y gwaith ymchwil manwl y mae'r Cabinet wedi cytuno i'r Adran ei wneud mewn perthynas â thai haf. Pwrpas y gwaith yw ceisio cyfarch sut y byddai modd cyfyngu faint o dai y gellid eu defnyddio at ddibenion gwyliau, gan edrych ar fesurau sydd yn weithredol mewn llefydd eraill a sut byddai modd newid deddfwriaethau cynllunio er mwyn eu gweithredu yng Nghymru.

Adroddwyd bod pryderon ers rhai blynyddoedd yng Ngwynedd ynglŷn â'r nifer o dai haf a'i sgil effeithiau ar gymunedau'r Sir. Nodwyd bod y diwydiant twristiaeth wedi esblygu yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf yn enwedig yn y ddarpariaeth o lety gosod byr dymor.

Amlygwyd mai'r bwriad oedd penodi tîm amlddisgyblaeth i wneud y gwaith ymchwil a gwahodddwyd ymgeiswyr i gyflwyno tendr ym mis Hydref 2019. Er na dderbyniwyd cais am dendr, penderfynwyd parhau gyda'r gwaith ymchwil gan gyflawni hynny mewn partneriaeth gyda Chyngor Caerdydd a'r Sefydliad Cynllunio Trefn Brenhinol (RTPI). Ategwyd bod yr Adran Cynllunio yn llunio cynllun a rhaglen ar gyfer y gwaith ymchwil a bod bwriad rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Craffu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Rhodddwyd cyflwyniad ffurfiol i'r Pwyllgor yn egluro'r cyd-destun ar gyfer y gwaith.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol gan Aelodau Unigol:

- Croesawu'r gwaith ymchwil – mawr obeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth i'r argymhellion / canfyddiadau
- Bod pryderon wedi eu hamlygu ers blynyddoedd ac erbyn hyn yr effaith yn amlygu'r angen i weithredu
- Bod angen rheolau a phrosesau yn ei lle i reoli'r sefyllfa yn well
- Awgrym i gyflwyno trefn gofrestru neu drwydded ar gyfer tai haf – hyn yn incwm posib
- Cyflwyno trefn o ddirwyo llym os yw amodau cynllunio yn cael eu torri
- Cyfle i drafod defnydd / rheolaeth tai gwyliau / cyfle i gydweithio gyda chymdeithasau tai / prynu tai marchnad gwyliau i'w cadw yn lleol
- Bod tai haf yn cael effaith negyddol ar drigolion lleol
- Croesawu'r syniad o osod cap ar y niferoedd tai haf mewn ardaloedd penodedig
- Bod angen ystyried nifer 'ail dai' sydd hefyd yn cael effaith ar stoc tai'r Sir
- Derbyn yr angen i gasglu tystiolaeth er mwyn pwysu am newid

Mewn ymateb, nododd Pennaeth Cynorthwyol yr Amgylchedd ei fod yn cydweld a'r sylwadau gan nodi'r angen i ddatblygu polisiau newydd a sefydlu deddfwriaethau ar y cyd (megis trethi a chynllunio) fel eu bod yn gyson yn eu diffiniadau i osgoi amheuaeth.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, croesawu'r gwaith ymchwil a derbyn diweddariad wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:15am a daeth i ben am 12:30pm

Eitem 5

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	6 Chwefror, 2020
Teitl	Gorfodaeth Stryd
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Catrin Wager
Awdur	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Pwrpas	Adroddiad Cynydd

1. Cyflwyniad

1.1 Ar 13 o Rhagfyr, 2018 bu i'r Pwyllgor Craffu ofyn am adroddiad cynnydd ar yr isod:

- Defnydd camerâu gan staff morwrol
- Effaith newidiadau trefniadau ailgylchu
- Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella'r ddarpariaeth
- Ail ystyried lefelau staffio presennol yn yr uned gorfodaeth stryd
- Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd

2. Cefndir a Diweddariad

2.1 Isod fe weler ddiweddariad ar y pwyntiau a oedd dan ystyriaeth:

Argymhelliad	Beth sydd wedi digwydd a phryd	Effaith y gweithredu
1. Defnydd camerâu gan staff morwrol	Mae'r camerâu yma eisoes yn weithredol a'r Polisi Corfforaethol mewn lle. Wedi darparu camerâu/canllawiau i staff Morwrol (6 mewn nifer).	Mae'r camerâu nawr o dan reolaeth uniongyrchol y Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig ac mae'r defnydd yn debygol o gynyddu yn ystod tymor 2020.
2. Effaith newidiadau trefniadau ailgylchu	Mae'r drefn casgliadau ailgylchu yn sefydlog nawr ers nifer o flynyddoedd. Sut bynnag, mae'r Adran yn y broses o newid y drefn casglu o un shifft gwaith i drefn o weithio wythnos gwaith arferol. Mae hefyd gerbydau newydd wedi eu comisiynu er gwella ar y drefn.	Mae'r drefn newydd wedi bod yn gam positif iawn wrth weld yr un criw gwaith ar yr un gylchdaith sydd yn rhoi perchnogaeth iddynt. Mae'r cerbydau hefyd wedi gwella ar gwynion o ddeunyddiau yn colli o'r cerbydau wrth drafeilio.

<p>3. Cydweithio gyda siroedd eraill cyfagos i wella'r ddarpariaeth</p>	<p>Nid yw'r trafodaethau diweddar gydag Awdurdodau Gogledd Cymru wedi arwain at ddatrysiad rhanbarthol. Mae'r Cyngorau eraill wedi datblygu cynlluniau amrywiol. Mae hyn yn amlygu'r angen i ail-ymweld a'r ddarpariaeth yng Ngwynedd, i adolygu'r gwasanaeth presennol, y blaenoriaethau a chyfeiriad strategol.</p>	<p>Gwasanaeth wedi ail ddiffinio'r yn gyd-destun Ffordd Gwynedd.</p>
<p>4. Ail ystyried lefelau staffio presennol yn yr uned gorfodaeth stryd</p>	<p>Ystyried lefelau staffio fel rhan o adolygiad ehangach (gweler 3).</p>	<p>Gwasanaeth wedi ail diffinio'r yn gyd-destun Ffordd Gwynedd.</p>
<p>5. Ehangu'r cydweithio rhyngadrannol lle mae staff eraill y Cyngor yn derbyn yr hawl dirprwyedig i orfodi ar y stryd</p>	<p>Trafodwyd yr argymhelliad hwn gyda'r Adran Amgylchedd gyda'r bwriad o gydweithio yn agosach efo staff Gorfodaeth Parcio. Oherwydd gwahaniaethau sylweddol yn y ddeddfwriaeth a methodoleg gweithredu nid yw'r opsiwn yma yn ddichonadwy ar hyn o bryd.</p>	<p>Dim effaith ar hyn o bryd.</p>

3. Camau Nesaf

- 3.1 Bydd yr Adran yn ail-ymweld a'r ddarpariaeth yng Ngwynedd ac mae cyfarfodydd wedi eu trefnu er mwyn cytuno ar sgop ac amserlen yr adolygiad.

Eitem 6

Pwyllgor	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad	6 Chwefror, 2020
Teitl	Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Gwastraff – ymateb i'r argymhellion
Aelod Cabinet	Y Cyngorydd Catrin Wager
Awdur	Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol
Pwrpas	Diweddaru'r Pwyllgor Craffu ar yr argymhellion

1. Cyflwyniad

- 1.1 Yn dilyn gwaith y gweithgor ar ymchwiliad gorfodaeth gwastraff, bu iddynt gynnig chwech argymhelliad ynghyd ac ychwanegu argymhelliad ar gyfer y drefn casglu.
- 1.2 Hoffai'r Adran gyflwyno'r isod fel adroddiad cynnydd ar weithredu'r argymhellion.
- 1.3 Rhennir yr argymhellion i ddau gategori:
 - Gweithredu'n syth
 - Cydweithio yn y tymor canolig gyda gwasanaethau/partneriaid eraill er gweithredu yr argymhellion

2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

- 2.1 Gweithredu'n syth:

Argymhelliad	Beth sydd wedi digwydd a phryd	Effaith y gweithredu
(7) I weithwyr y gwasanaeth casglu weithredu yn briodol fel nad yw gwastraff yn dianc allan o'r cerbydau.	Mae'r gwasanaeth ers y 4ydd Gorffennaf, 2019 wedi rhoi mewn lle drefn newydd o gasglu. Drwy hyn wedi gwneud ffwrdd y 'Task and Finish' a chyflwyno trefn o gael yr un tîm gwaith ar yr un gylchdaith. Y drefn newydd mewn lle yn Arfon a Dwyfor a byddwn yn cwblhau'r gwaith ym Meirionnydd fis Mai.	<ul style="list-style-type: none">• Llai o gasgliadau wedi methu yn Nwyfor• Llai o gwynion am flerwch a rhuthro• Methiant cwblhau cylchdeithiau yn Arfon (hyn yn cael ei adolygu)

2.2 Cydweithio yn y tymor canolig gyda gwasanaethau/partneriaid eraill er gweithredu yr argymhellion:

Argymhelliad	Beth sydd wedi digwydd a phryd	Effaith y gweithredu
(1) Defnyddio pwerau Deddf Gwarchod yr Amgylchedd (1990) Adrannau 46 a 47 sy'n ymwneud â chynhwysyddion gwastraff i gyflwyno trefn newydd lle a phryd a bo'r angen, i ddirwyo trigolion a busnesau sy'n gwaredu eu gwastraff ar y diwrnod anghywir neu yn y ffordd anghywir fel mater o flaenoriaeth.	Oherwydd y newidiadau i drefniadau casglu gwastraff Sirol, yn cynnwys newid i ddyddiau casglu, penderfynwyd gohirio gweithred o'r pwerau newydd am gyfnod o 6 mis. Mae'r polisi gweithredol, canllawiau a phwerau gorfodaeth mewn lle. Mae angen hyfforddi staff yn ystod y cyfnod gwireddu.	Bwriad y defnydd o'r pwerau bydd gwella diogelwch a delwedd strydoedd Gwynedd. Mae'r oedi am roi gwell cyfle i ddefnyddwyr ddod i arfer gyda'r drefn newydd cyn gwireddu.
(2) Ymgymryd ag ymgyrch hyrwyddo sirol i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau gwastraff ac ailgylchu gyda ffocws penodol ar Ddinas Bangor a chydnabod y gwahaniaethau daearyddol a demograffig yn y Sir ar wahanol adegau o'r flwyddyn.	Cyfarfodydd pellach gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a Phrifysgol Bangor i symud yr ymgyrch codi ymwybyddiaeth ymlaen wedi ei drefnu ym mis Chwefror 2020. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn cyfrannu at y broses.	Sicrhau bod defnyddwyr yn gyfarwydd â'r anghenion newydd. Rhaglen gyfathrebu clir.
(3) Gosod sticeri 'QR Code' ar gynhwysyddion ailgylchu er mwyn darparu mynediad 24 awr i drigolion at eu diwrnodau casglu gwastraff ac ailgylchu a gwybodaeth am eitemau y gellir eu hailgylchu.	Bwriad i gynnal peilot yn ardal Bangor Uchaf fel man cychwyn. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn arwain yr elfen yma yn ystod y Gwanwyn.	Gwella mynediad defnyddwyr at wybodaeth gywir ac amserol mewn perthynas a threfniadau casglu.
(4) Ffurfioli trefniadau cydweithio rhwng Adrannau'r Cyngor.	Eisoes wedi cytuno i gydweithio yn agos gyda'r Adran Tai a Llesiant, Gwarchod y Cyhoedd a Cynllunio. Angen cynnal cyfarfodydd cynnydd chwarterol yn ystod y cyfnod gwireddu.	Defnydd o bwerau amrywiol i ddatrys problemau amgylcheddol.
(5) Cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Casgliadau Clinigol a'r Gwasanaeth Casglu Arbennig sydd ar gael i helpu pobl hŷn a phobl anabl i waredu eu gwastraff. Bydd modd gwneud hyn fel rhan o'r ymgyrch hyrwyddo ehangach.	I ddigwydd ar y cyd gyda'r ymgyrch ehangach – gweler 2. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn arwain yr elfen yma ac mae gwaith cychwynnol wedi dechrau yma.	Sicrhau bod defnyddwyr yn gyfarwydd â'r gwasanaethau penodol sydd ar gael.
(6) Hyrwyddo rhwydwaith presennol o Ganolfannau Ailgylchu a chynnal ymgyrch benodol ar gyfer y Gwasanaeth Casglu Gwastraff Swmpus.	I ddigwydd ar y cyd efo'r ymgyrch ehangach – gweler 2. Bydd Swyddogion Gwastraff ac Ailgylchu yn arwain yr elfen yma.	Sicrhau bod defnyddwyr yn gyfarwydd â'r gwasanaethau penodol sydd ar gael.

3. Camau Nesaf

- 3.1 Drwy weld y drefn casglu newydd yn ei le, bydd yn amserol i fwrw ymlaen nawr fel yr amlygir yn y tabl uchod.

Eitem 7

Pwyllgor	PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU
Dyddiad	6 CHWEFROR 2020
Teitl	Cynllunio a'r Cynllun Dirprwyo (Adroddiad monitro ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo newydd)
Aelod Cabinet	Cynghorydd Gareth W Griffith
Awdur	Gareth Jones – Pennaeth Cynorthwyol Adran Amgylchedd
Pwrpas	Cwblhau monitro 12 mis ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo newydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu wedi hynny

1. CEFNDIR

- 1.1 Fe adolygwyd y Cynllun Dirprwyo ar gyfer ceisiadau cynllunio ym Mai 2018 ar ol ymchwiliad craffu ac fe atodir copi o'r Adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn i'w dderbyn er gwybodaeth **[Atodiad 1]**. Amcan yr adroddiad oedd addasu'r drefn er ceisio tynnu balans priodol ynglyn a'r math o geisiadau cynllunio oedd rhaid mynd gerbron y Pwyllgor am benderfyniad a'r rhai y gellir ei penderfynu drwy'r drefn dirprwyedig.
- 1.2 Un o'r prif newidiadau oedd symud y pwyslais oddi wrth gyfeirio i'r Pwyllgor yn sgil nifer gymharol isel a meiniol o wrthwynebiadau, oedd yn cynyddu gwaith y Pwyllgor er bod y cais yn gymharol syml ei natur. Rhoddwyd ystyriaeth penodol felly ar rol Aelodau Lleol ac ehangach fel baromedr o farn leol ac i ddefnyddio eu hawl galw i mewn petai pryder lleol gwirioneddol.
- 1.3 Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo newydd fe gododd Aelodau o'r Pwyllgor Craffu bryderon am y ffordd roedd swyddogion wedi penderynu cais ym Mhlas Pistyll o dan y drefn dirprwyedig ac bu i'r mater gael ei drafod gan y Pwyllgor Craffu yn eu cyfarfod ar y 13eg o Ragfyr 2018; y 7fed o Chwefror, 2019 a'r 4ydd o Ebrill, 2019.
- 1.4 Roedd argymhellion Pennaeth Adran Amgylchedd fel a nodwyd yn yr adroddiad yn datgan:
Argymhellir fod y Pennaeth Adran Amgylchedd yn:
 - 1) Ystyried opsiynau posib ar gyfer y dull o ymgynghori gyda'r Aelod Lleol, Cyngor Cymuned / Tref a chymdogion ac ati ar geisiadau cynllunio i newid amod ac ar mathau eraill o geisiadau cynllunio.
 - 2) Ystyried trefniadau ar gyfer ymgynghori ar geisiadau sydd o fewn neu wrth ymyl yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) o ran y Gwasanaeth AHNE a'r Cydbwyllgor AHNE, cyn belled a bod hynny'n rhesymol a phriodol gan ystyried y gofynion statudol ar gyfer ymgynghori ac ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.
 - 3) Parhau i gynnal sesiynnau hyfforddiant rheolaidd i bob Aelod a bod pob Aelod yn rhoi blaenoriaeth i fynychu'r sesiynnau hynny. Gall hyn fod yn cynnwys sesiynnau unigol i Aelod os oes angen.
 - 4) Cwblhau'r monitro 12 mis ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo newydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu wedi hynny ar y Cynllun Dirprwyo ac ar argymhellion 1, 2 a 3.'

- 1.5 Yn eu cyfarfod ar y 4ydd o Ebrill, 2019 bu i'r Pwyllgor Craffu gynnig ac eilio derbyn yr adroddiad a'r argymhellion uchod.
- 1.6 Er hwylustod fe drafodir y 4 argymhelliad fesul pennawd:
- Ystyried opsiynau posib ar gyfer y dull o ymgynghori gyda'r Aelod Lleol, Cyngor Cymuned / Tref a chymdogion ac ati ar geisiadau cynllunio i newid amod ac ar mathau eraill o geisiadau cynllunio.**
- 1.7 Fe ymgynghorir gyda'r Aelod Lleol, Cyngor Cymuned/Tref a chymdogion yn unol gyda gofynion Erthygl 12 o'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) (Diwygio) 2012.
- 1.8 Mae ymgynghori gyda ymgynghorai statudol yn digwydd yn electroneg ac fe ymgynghorir gyda chymdogion drwy lythyr ac/neu hysbyseb safle fel sydd yn briodol ac yn unol gyda'r Gorchymyn uchod. Fe ymgynghorir gyda'r Aelod Lleol, Cyngor Cymuned/Tref ar bob cais ble mae gofyn statudol i ymgynghori. Mae hyn hefyd yn gyson gyda'r ffordd mae Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn gweithredu o safbwynt ymgynghori ar geisiadau cynllunio.
- 1.9 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn cyhoeddi 'Rhestr Wythnosol' o geisiadau cynllunio sydd wedi eu cofrestru ac mae hwn ar gael ar safle we y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunio > 'Gweld ceisiadau cynllunio (Dilyn a Darganfod)' > 'Ceisiadau wedi eu cofrestru: Rhestr Wythnosol'. Ar 'Dilyn a Darganfod' gellir hefyd chwilio am geisiadau cynllunio neu edrych ar restrau wythnosol blaenorol. Nid yw'n ofynnol i'r Gwasanaeth Cynllunio ddarparu rhestr o'r fath.
- 1.10 Atodir copi o'r hyn sydd yn cael ei anfon fel ymgynghoriad i ymgynghorwyr statudol (sydd yn cynnwys yr Aelod Lleol a'r Cyngor Cymuned/Tref) yn **Atodiad 2**. Atodir copi o'r ymgynghoriad i gymdogion yn **Atodiad 3**. Mae'r ymgynghoriadau hyn wedi cael eu diwygio ers y Pwyllgor Craffu yn Ebrill 2019 gyda'r ymgynghoriad newydd wedi ei osod allan yn wahanol sydd yn amlygu y materion perthnasol yn well. Atodir copi o'r llythyrau ymgynghoriad blaenorol yn Atodiad 4.
- 1.11 Wrth ymgynghori ar gais mae'n hanfodol fod y manylion perthnasol i'r cais cynllunio yn cael eu cynnwys gan gynnwys disgrifiad o'r datblygiad a'r lleoliad, ble gellir gweld manylion y cais, yr amserlen ar gyfer cyflwyno sylwadau ac i ble gellir cyflwyno sylwadau. Nid oes gofynion Cenedlaethol ar gyfer manylder y disgrifiad ond mae swyddogion yn sicrhau fod y disgrifiad o'r cais yn adlewyrchiad mor glir a phosibl o'r bwriad ond mae'n rhaid hefyd cydnabod nad oes gofyn darparu gormod o fanylder. Nid oes rhaid i'r cais cynllunio neu'r wybodaeth ategol gael ei gyhoeddi'n electronig ond mae Llywodraeth Cymru yn annog hynny er mwyn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses rheoli datblygu. Mewn Sir mor wledig a Gwynedd mae cynnal safle we gyda'r wybodaeth am geisiadau yn ei gwneud yn haws i'r cyhoedd gael mynediad hwylus i'r wybodaeth a gallu darparu sylwadau.
- 1.12 Ystyrir fod y llythyrau ymgynghori yn darparu'r wybodaeth angenrheidiol (ac fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru) ac yn osgoi jargon a bod yn or-gymhleth ble bynnag mae hynny yn bosibl. O bryd i'w gilydd ble mae ceisiadau mawr a chymhleth, mae'n anorfod fod y disgrifiad yn gorfod bod yn fanylach. Ymgynghorwyd gyda Uned Cyfathrebu y Cyngor er mwyn derbyn barn ar gynnwys a gosodiad y llythyrau ymgynghori i gymdogion ac awgrymwyd man

newidiadau sydd wedi'u ymgorffori yn y llythyr. Awgrymwyd fod mwy o arweiniad yn cael ei gynnig yn y llythyr i gymdogion ar sut i gyrraedd y wybodaeth berthnasol ar y system 'Dilyn a Darganfod' ac mae hyn wedi ei gynnwys fel rhan o'r llythyr sydd wedi ei atodi fel gwybodaeth yn **Atodiad 3**. Mae'r llythyr sydd yn cael ei anfon at ymgynghorwyr statudol/Aelod Lleol/Cyngor Cymued a Thref yn cynnwys linc uniongyrchol i'r cais ac felly nid oes angen yr un faint o arweiniad a roddir ar lythyrau cymdogion.

1.13 Ers Tachwedd 2019 mae gan y Gwasanaeth Cynllunio system swyddfa gefn newydd ac mae hyn yn golygu fod newidiadau i'r ffordd o ymgynghori wedi gorfod digwydd oherwydd hyn. Yn benodol mae fformat a 'ffont' yr ymgynghoriadau wedi newid ac mae hyn ynddo'i hun yn gwneud y llythyrau yn fwy clir i'w darllen ac yn amlygu'r prif faterion yn well. Yn ogystal, mae'r system swyddfa gefn newydd yn golygu ei bod yn haws i ddefnyddwyr y dudalen 'Dilyn a Darganfod' sydd ar safle we y Cyngor weld beth yw'r dogfennau a ymgynghorir arnynt. O ganlyniad i'r system swyddfa gefn newydd mae'r Rhestr Wythnosol a gyfeirir ato uchod hefyd yn haws i'w defnyddio gan ei fod mwy o wybodaeth ar gael ar y dudalen flaen gan alluogi defnyddwyr y safle i cael cipolwg mwy cyflawn o'r ceisiadau sydd wedi'u rhestru (copi wedi ei roi fel enghraifft yn **Atodiad 5**).

1.14 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ymwybodol nad yw'r trosglwyddo i'r system newydd wedi bod yn gwbl rhwydd a hynny oherwydd anfadrwydd y dasg a'r newid. Wrth gyflwyno newid mor sylfaenol mae'n anorfod nad yw'r system am fod yn gwbl berffaith yn y lle cyntaf ac mae swyddogion yn gweithio'n gyson i wella hyn ac i ymateb yn brydlon i unrhyw faterion sy'n codi. Er hyn, ac o ystyried fod y nifer o ddefnyddwyr yn sylweddol, nifer fychan o bryderon sydd wedi eu derbyn am y newid ac i'r mwyafrif helaeth o gwsmeriaid/defnyddwyr y Gwasanaeth mae'r newid yn welliant sylweddol o'r hen system, gan gynnwys disgrifiad cliriach o'r dogfennau sydd ar gael a braslun bychan o'r cynlluniau heb orfod agor dogfennau fesul un. Yn y pendraw, ac wedi'r cyfnod cyntaf mae'r Gwasanaeth yn hyderus y bydd y trefniadau newydd yn welliant sylweddol i holl ddefnyddwyr y Gwasanaeth gydag un o'r manteision mwyaf yn golygu pan fod problemau yn codi fod y gallu gan swyddogion i ymateb iddynt yn sydyn heb orfod ofyn i gwmni allanol wneud hyn.

Ystyried trefniadau ar gyfer ymgynghori ar geisiadau sydd o fewn neu wrth ymyl yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) o ran yr Uned AHNE a'r Cyd-bwyllgor AHNE, cyn belled a bod hynny'n rhesymol a phriodol gan ystyried y gofynion statudol ar gyfer ymgynghori ac ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

1.15 Mae trefniant ffurfiol eisoes yn ei le drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth er mwyn ymgynghori gyda'r Uned AHNE ar geisiadau sydd o fewn neu gerllaw yr AHNE. Mae'r trefniadau yn golygu fod perthynas waith sefydledig yn ei lle sydd yn golygu bod y Gwasanaeth AHNE yn darparu mewnbwn ffurfiol o fewn amserlen statudol benodol i ystod eang o faterion cynllunio gan gynnwys rhai ymgynghoriadau ar geisiadau am gyngor cyn cyflwyno cais a'r holl geisiadau cynllunio sydd wedi eu lleoli o fewn neu gerllaw yr AHNE. Mae'r ymatebion yn gryno a pherthnasol i'r materion sy'n effeithio ar yr AHNE. Yn ogystal, mae perthynas waith agos rhwng y ddau wasanaeth yn golygu fod cyd-drafod rheolaidd yn digwydd er mwyn trafod materion cynllunio all gael effaith ar yr AHNE. Wrth ystyried ceisiadau cynllunio o fewn yr AHNE, neu geisiadau gerllaw yr AHNE all gael effaith ar yr AHNE, mae swyddogion yn rhoi ystyriaeth briodol i sylwadau'r Uned AHNE a'r cyd destun polisi perthnasol (sy'n cynnwys polisi AMG 1 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn cyfeirio at y Cynllun Rheolaeth AHNE).

1.16 O drafod gyda'r Uned AHNE ystyrir fod y trefniadau presennol yma yn rhesymol a phriodol ac yn gweithio'n effeithiol gan gyfrannu ar y pwrpas o warchod yr AHNE. Nid oes gofyn statudol i ymgynghori gyda'r Uned AHNE ond ystyrir fod hyn yn ymarefer da ac yn ychwanegu gwerth i'r broses. Nid oes trefniant ffurfiol i ymgynghori gyda Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE ar geisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mewn achosion arbennig mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ymwybodol fod modd i geisiadau cynllunio gael eu trafod mewn cyfarfodydd o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol ac i sylwadau gael eu hanfon ymlaen i'r Gwasanaeth Gynllunio. O dan yr amgylchiadau sydd wedi eu hamlinellu uchod credir fod y trefniant presennol yn gweithio yn dda ac nad oes sail i wneud newidiadau.

Parhau i gynnal sesiynnau hyfforddiant rheolaidd i bob Aelod a bod pob Aelod yn rhoi blaenoriaeth i fynychu'r sesiynnau hynny. Gall hyn fod yn cynnwys sesiynnau unigol i Aelod os oes angen.

1.17 Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn ymroddedig i gynnal sesiynnau hyfforddiant sydd yn ymwneud gyda'r maes cynllunio yn rheolaidd. Mae sesiynnau diweddar wedi bod ynglyn a'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a'r trefniadau monitro ac adolygu ac allbynnau'r adroddiad monitro blynyddol cyntaf, yn ogystal a thrafod achosion apeliadau diweddar a'r prif negeseuon yn deillio allan o benderfyniadau apel. Mae'r adborth ar gyfer y sesiynnau hyfforddiant i Aelodau yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn. Heblaw am hyfforddi Aelodau newydd o'r Pwyllgor Cynllunio mewn sesiynnau 1:1 fe gynhaliwyd y sesiynnau hyfforddiant drost y blynyddoedd olaf megis:

- Cynllun Datblygu Lleol (Gwynedd ac Ynys Mon) 16/09/2019 & 19/09/2019
- Hyfforddiant Aelodau Pwyllgor Cynllunio - 01.04.19
- Hyfforddiant i Aelodau ar y broses gynllunio – 20/2/19
- Hyfforddiant: Y Pwyllgor Cynllunio 16/1/19
- Hyfforddiant Apeliadau Cynllunio – 27/7/18
- Hyfforddiant Aelodau Pwyllgor Cynllunio – Apeliadau - 15/06/18
- Y Pwyllgor Cynllunio 2017 (Apeliadau Cynllunio)

Cwblhau'r monitro 12 mis ar weithrediad y Cynllun Dirprwyo newydd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Craffu wedi hynny ar y Cynllun Dirprwyo ac ar argymhellion 1, 2 a 3.

1.18 Fel a nodwyd eisoes, fe adolygwyd y Cynllun Dirprwyo ar gyfer ceisiadau cynllunio ym Mai 2018 ar ol ymchwiliad craffu ac fe atodir copi o'r Adroddiad Craffu a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn i'w dderbyn er gwybodaeth (Atodiad ??). Amcan yr adroddiad oedd addasu'r drefn er ceisio tynnu balans priodol ynglyn a ceisiadau cynllunio oedd rhaid mynd gerbron y Pwyllgor am benderfyniad a'r rhai y gellir ei penderfynu drwy'r drefn dirprwyedig. Un o'r prif newidiadau oedd symud y pwyslais oddi wrth gyfeirio i'r Pwyllgor yn sgil nifer gymharol isel a meiniol o wrthwynbeidatau, oedd yn cynyddu gwaith y Pwyllgor yn sylweddol, er bod y cais yn gymharol syml ei natur. Rhoddwyd ystyriaeth penodol felly ar rol Aelodau Lleol ac ehangach fel baromedr o farn leol ac i Aelod Lleol ddefnyddio eu hawl galw i mewn petai pryder lleol gwirioneddol.

- 1.19 Fel rhan o'r Ymchwiliad Craffu yn ystod 2016-17 fe ragwelwyd y byddai buddion amlwg ac eang o weithredu'r newidiadau i'r Cynllun Dirprwyo fyddai'n cynnwys:
- Llai o geisiadau ar yr rhaglen a pheidio gorfod blaenoriaethu cymaint
 - Penderfyniadau mwy amserol yn debygol o:
 - Wella profiad y cwsmer
 - Lleihau'r risgiau i'r Cyngor (apel ac ad-dalu ffioedd)
 - Llai o bwysau gwaith ar Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a chyfarfodydd byrrach
 - Pwyllgor Cynllunio yn gallu canolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt
 - Llai o bwysau ar yr holl Unedau ac swyddogion sy'n cefnogi'r broses
 - Ryddhau amser Swyddogion Cynllunio i ganolbwyntio ar geisiadau cynllunio eraill gwella profiad holl gwsmeriaid y Gwasanaeth Cynllunio


2. ASESU'R NEWID I'R CYNLLUN DIRPRWYO

2.1 Bellach mae cyfnod o flwyddyn a hanner wedi bod ers mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo newydd ac mae modd edrych yn ol ar ddata y cyfnod yma er mwyn asesu'r newid. Yn ystod 2016/17 daeth 9% o holl geisiadau cynllunio o fewn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gerbron y Pwyllgor Cynllunio o'i gymharu gyda cyfartaledd Cymru oedd yn 6%. Ar yr adeg hynny, y prif resymau am hyn oedd:


- Trothwyon ar gyfer cyfeirio cais i'r Pwyllgor Cynllunio yn isel
- Trothwyon yn rhy rhagnodol
- Cynllun Dirprwyedig (ar y pryd) wedi dyddio – a'r math o geisiadau a welir wedi newid yn sylweddol o safbwynt nifer, math a maint.

2.2 Isod gwelir ddau graff, y cyntaf yn dangos y rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor oedd yn seiliedig ar wybodaeth Pwyllgorau Cynllunio yn ystod 2015/2016 a'r ail yn dangos y rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ers Medi 2018. Er fod y Cynllun Dirprwyo newydd wedi ei fabwysiadu dechrau Mai 2018 roedd sawl cais a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio yn y misoedd dilynol yn geisiadau oedd angen eu hystyried yn unol gyda gofynion yr hen Gynllun Dirprwyo. Erbyn Medi 2018 roedd rhan helaeth y ceisiadau oedd yn dod gerbron y Pwyllgor yn rai oedd wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor ar sail gofynion y Cynllun Dirprwyo newydd ac felly ystyrir fod y wybodaeth o Medi 2018 yn rhoi adlewyrchiad mwy teg o sut mae llyth gwaith y Pwyllgor wedi newid o ganlyniad i fabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo newydd.

Rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio yn 2015/2016:



Rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ers Medi 2018:



- 2.3 Er mwyn gallu gwneud cymhariaeth glir rhwng y gwahaniaeth mewn nifer o geisiadau cyn ac ar ol mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo newydd mae'n hanfodol osgoi y cyfnod o newid sef Mai 2018 i o leiaf Medi 2018. Er mwyn gwneud y gymhariaeth yma cymharwyd y nifer o eitemau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Cynllunio dros 15 o gyfarfodydd rhwng Rhagfyr 2016 i Rhagfyr 2017 ac wedyn rhwng y 15 o gyfarfodydd rhwng Rhagfyr 2018 a Rhagfyr 2019. Roedd y nifer o eitemau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn 2016/17 yn **142** (yn amrywio rhwng 5 a 16 o eitemau gyda chyfartaledd o 9) a'r nifer o eitemau a gyflwynwyd yn 2018/19 yn **67** (yn amrywio rhwng 3 a 9 o eitemau gyda chyfartaledd o 4. Noder fod un o'r Pwyllgorau yn y cyfnod yma wedi ei ganslo).
- 2.4 Mae'r newid i'r Cynllun Dirprwyo wedi golygu mai ond oddeutu 6% o'r holl geisiadau sydd bellach yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio er mwyn cael penderfyniad yn lle 9% a welwyd o dan yr hen gynllun dirprwyo. Mae hyn wedi galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i ganolbwyntio ar y ceisiadau mwyaf o ran ei maint ac hefyd y ceisiadau mwyaf cynhennus. Yn ogystal mae hyn wedi galluogi'r Gwasanaeth Cynllunio i fod yn cymharu yn well gyda'r cyfartaledd drwy Gymru ac yn ogystal a'r buddion eraill o ryddhau amser swyddogion i fod yn canolbwyntio ar 94% o geisiadau eraill sydd angen penderfyniad prydlon.
- 2.5 Mae'n debyg mai'r prif newid yw nad yw ceisiadau bychan nad ydynt o ddiddordeb mwy na lleol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor ond oherwydd fod 3+ o wrthwynebiadau wedi eu derbyn. Yn hytrach, yr hyn sydd wedi ei weld yw bod y ceisiadau sydd wir o ddiddordeb lleol unai yn cael eu galw i mewn gan yr Aelod(au) Lleol neu gan y Pennaeth Adran yn lle'r hen riniog o dderbyn 3+ o lythyrau gwrthwynebu. Mae'n bosib iawn os na fyddai rhain wedi eu galw mewn gan yr Aelod(au) Lleol efallai y byddai'r Pennaeth Adran hefyd wedi ystyried eu galw i mewn ar sail lefel a natur y diddordeb lleol. Mae'r wybodaeth arall yn weddol gyson e.e. mae'r hen riniogau o faint arwynebedd llawr a 5+ carafán bellach yn cael ei gyfarch gan faint safle/adeilad ac mae'r rhiniog 5+ tŷ wedi aros yr un peth gyda'r canran o geisiadau wedi aros yn weddol debyg er gwaethaf y newid.
- 2.6 O'r wybodaeth yma gellir dod i'r casgliad fod rol yr Aelod(au) Lleol ac ehangach yn mynd i weithredu fel baromedr o farn leol ac i Aelod Lleol ddefnyddio eu hawl galw i mewn petai pryder lleol gwirioneddol wedi gweithio yn llwyddiannus. Yn ogystal, unwaith 'roedd y newid i'r Cynllun Dirprwyo yn ei le ac wedi ei egluro, ni fu unrhyw bryderon na chwynion gan drigolion am y newid i'r rhiniog 3+ o wrthwynebiadau.
- 2.7 Er mwyn cael barn ehangach am effeithiau a llwyddiant y Cynllun Dirprwyo newydd fe holwyd barn cynrychiolaeth o swyddogion o Wasanaethau eraill o fewn y Cyngor sydd yn chwarae rhan allweddol yng ngwaith y Pwyllgor. Er mwyn hwyluso hyn fe ofonwyd 4 cwestiwn ac fe dderbyniwyd ymateb gan bob Gwasanaeth a holwyd. Roedd yr ymatebion yn dilyn trywydd a themau cyffredin gan hefyd nodi awgrymiadau. Fe grynhoir rhain isod o dan y cwestiwn o ofynnwyd:
1. **Gofynion gwaith/yr effaith ar eu llwyth gwaith o'o gymharu gyda'r sefyllfa flaenorol?**
 - Baich gwaith wedi ysgafnhau gryn dipyn, bellach mae llai o bwysau o fewn amserlen dynn (cylch 3 wythnos). Rhaglen swmpus bob 3 wythnos yn gallu creu straen sylweddol.

2. Y nifer o eitemau ar yr agenda a hyd y Pwyllgor?

- Nifer o eitemau ar yr agenda wedi lleihau. Pwrpas y newid oedd lleihau niferoedd er mwyn i'r Pwyllgor allu trafod yr achosion o bwys mewn manylder. Hefyd, mae'r amser byr sydd ar gael i baratoi ar gyfer y Pwyllgor yn golygu fod swyddogion bellach yn gallu canolbwyntio'n llwyr ar yr achosion o bwys.
- Penderfyniad dirprwyedig yn golygu penderfyniad cynt i'r cwsmer (sydd i'w groesawu)

3. Ystyried arbrofi gyda lleihau y nifer/amlder o Bwyllgorau ac sut y byddai hyn yn effeithio ar y Gwasanaeth perthnasol?

- Gwneud synnwyr i ystyried llai o gyfarfodydd o ystyried y nifer isel.
- Croesawu lleihau amlder/nifer Pwyllgorau.
- Er byddai mwy o eitemau bob 4 wythnos byddai yn Bwyllgor o sylwedd.
- Er byddai mwy o eitemau bob 4 wythnos byddai cael gwared o'r 'cycle' heriol bob 3 wythnos yn fwy manteisiol ac yn gorbwyso hyn.
- Byddai'n fwy cost effeithiol (teithio a lluniaeth) ac yn well defnydd o amser.

2.8 Ers gweithredu'r Cynllun Dirprwyo newydd mae'r dystiolaeth yn dangos fod llai o geisiadau yn cael ei hadrodd i'r Pwyllgor, ond bod y Cyllun Dirprwyo yn sicrhau fod y ceisiadau sydd angen i'r Pwyllgor fod yn eu penderfynu yn cael hadrodd iddynt. Nodir fod sylwadau yn sgil yr ymgynghoriad ar y cynllun dirprwyedig yn codi mater amrywiol o ran trefniadau'r Pwyllgor, ond tynnir sylw'n benodol at y sylwadau cyffredin ynglyn a nifer y ceisiadau sydd yn cael eu hadrodd a nifer y cyfarfodydd Pwyllgor Cynllunio sydd angen eu cynnal. Ar hyn o bryd mae 15 Pwyllgor Cynllunio'r flwyddyn gyda'r nifer yma o gyfarfodydd mae'n debyg yn seiliedig ar ofynion yr hen Gynllun Dirprwyo. Gan ystyried y nifer o geisiadau sydd angen eu hadrodd i Bwyllgor erbyn hyn – credir fod sail i ostwng nifer y cyfarfodydd Pwyllgor o 15 y flwyddyn i 12 y flwyddyn, ond bod hyn yn cael ei fonitro. Mae hyn i weld yn gwneud synnwyr o ran defnydd mwy effeithiol o adnoddau ac amser Swyddogion ac Aelodau.

3. ARGYMHELLION

3.1 I barhau i weithredu'r drefn ymgynghori statudol a defnyddio y templedi llythyrau newydd er mwy ymgynghori ac i fonitro'r sefyllfa gyda'r swyddfa gefn newydd ac adolygu fel bo angen.

3.2 Parhau i ymgynghori gyda'r Uned AHNE fel sydd yn digwydd yn bresennol.

3.3 Parhau gyda darparu rhaglen o hyfforddiant perthnasol yn rheolaidd

3.4 I leihau'r nifer y Pwyllgorau Cynllunio o 15 y flwyddyn i 12 y flwyddyn a monitro sut mae hyn yn gweithredu dros gyfnod o flwyddyn ac i fod yn weithredol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

ATODIADAU

- **Atodiad 1:** Adroddiad Cyngor Llawn 3ydd o Fai, 3018
- **Atodiad 2:** Llythyr ymgynghori ar gais cynllunio – ymgynghorwyr statudol/Aelod Lleol/Cyngor Cymuned a Thref
- **Atodiad 3:** Llythyr ymgynghori ar gais cynllunio - cymdogion
- **Atodiad 4:** Llythyrau ymgynghori ar gais cynllunio (yr hen fersiwn)
- **Atodiad 5:** copi o dudalen y we sydd yn dangos y 'Rhestr Wythnosol' o geisiadau cynllunio

PWYLLGOR	CYNGOR
DYDDIAD	3ydd Mai 2018
TEITL	Diwygio'r Cyfansoddiad
CYFLWYNYDD	Cynghorydd Seimon Glyn – Cadeirydd Pwyllgor Craffu Cymunedau
AELOD CABINET	Cynghorydd Dafydd Meurig – Aelod Cabinet Amgylchedd
PWRPAS	Gweithredu argymhellion y Pwyllgor Craffu Cymunedau o ran addasu Cynllun Dirprwy Cynllunio
ARGYMHELLIAD	Mabwysiadu'r addasiadau i'r Cynllun Dirprwy Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.
AWDUR	Iwan Evans, Swyddog Monitro

Cefndir

- 1 Mae'r adroddiad yma yn cynnwys argymhellion ar gyfer diwygio elfen benodol o'r Cyfansoddiad, sef Cynllun Dirprwy Cynllunio. Mae'r addasiadau penodol i'w gweld yn Atodiad 1
- 2 Ym mis Mawrth 2017 cwblhawyd ymchwiliad Craffu Cymunedau ynglŷn â'r maes Cynllunio. Un o'r meysydd oedd dan ystyriaeth oedd nifer o geisiadau cynllunio oedd yn dod ger bron y Pwyllgor Cynllunio. Canfyddiad yr ymchwiliad oedd bod y nifer o geisiadau oedd ger bron y Pwyllgor yn uchel ac felly bod angen ystyried addasu'r Cynllun Dirprwy Cynllunio. Roedd hyn yn argymhelliad ffurfiol gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau. Ymgynghorwyd yn anffurfiol gydag aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio hefyd ym mis Tachwedd ar y darpar addasiadau. Roedd cefnogaeth i'r awgrymiadau mewn egwyddor.
- 3 Ymgynghorwyd ymhellach gyda'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar yr 22ain Chwefror 2018 ynglŷn â geiriad y Cynllun dirprwy newydd, a phenderfynwyd derbyn yr addasiadau. Mae'r adroddiad Pwyllgor Craffu i'w weld yn Atodiad 2, ac mae hwn yn nodi'r cefndir yn ei gyfanrwydd. Nodir manteision a buddion addasu'r Cynllun Dirprwy a ystyriwyd o fewn rhan 7.2 o'r adroddiad Craffu. Y rhain yw'r ceisiadu sydd rhaid dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio.

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s16060/Planning%20Delegation%20Plan.pdf?LLL=1>

Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Amgylchedd

- 4 Mae'r newidiadau arfaethedig i'w gweld yn benodol yn Atodiad 1. Mae nifer o'r newidiadau ynglŷn â sicrhau cysondeb a thacluso materion technegol. Mae'r newidiadau i'w crynhoi fel a ganlyn:
 - 4.1 Mae rhif 2 yn ymdrin â cheisiadau cynllunio a gwrthwynebiadau gan Aelodau Etholedig neu staff Gwasanaeth Cynllunio. Mae hyn yn creu sicrwydd er mwyn ymdrin â materion yn dryloyw, a bod unrhyw geisiadau o'r math yn cael eu delio yn gyhoeddus gan y Pwyllgor. Mae rhif 3 yn ymdrin gyda sefyllfa gyffelyb o ran perthnasau agos.
 - 4.2 Rhif 5 - wedi ei ddileu gan fod rhannau eraill o'r cynllun yn gallu ymdrin â cheisiadau o'r math yma.
 - 4.3 Rhif 6 - Ar hyn o bryd mae trothwy o 3 gwrthwynebiad i gais gynllunio yn groes i argymhelliad swyddog yn golygu y bydd mater yn mynd ger bron Pwyllgor Cynllunio. Golygai fod derbyn unrhyw dri eitem o ohebiaeth yn rhoi'r eitem ar raglen y Pwyllgor heb unrhyw gyd-destyn. Ar sail y wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu yn yr ymchwiliad yn 2017, roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i beidio cael trothwy ar gyfer nifer o ohebiaeth. Mae disgresiwn yr Aelod Lleol i alw cais ger bron y Pwyllgor yn parhau (Rhif 1) a hefyd mae gan y Pennaeth y disgresiwn i alw ceisiadau i'r Pwyllgor fel bod yn ystyried yn briodol (Rhif 7).
 - 4.4 Rhif 9 - Ni ystyrir fod angen gwahaniaethu rhwng datblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu ei natur sydd dros 500 meter sgwar a datblygiadau o adeilad neu adeiladau sydd yn fwy na 1000 meter sgwar neu fwy. Ystyrir fod yr addasiad yn cyfarch y rhain mewn un pwynt perthnasol gan osod trothwy o 1000 meter sgwar bu'r rhain yn adeiladau masnachol, adwerthu neu unrhyw ddatblygiad o fath arall. Mae hyn yn adlewyrchu y diffiniad statudol o Ddatblygiad Mawr.
 - 4.5 Rhif 10 - mae hwn wedi ei gynnwys er mwyn cyfarch datblygiad tir sydd yn fwy na 0.5 hectar. Ystyrir fod y pwynt yma yn cyfarch nifer o geisiadau carafanau o sylwedd (rhif 11), ac unrhyw ddatblygiad arall all fod o sylwedd.
 - 4.6 Mae rhif 11 a 12 wedi eu dileu ar y sail fod un ai un o'r penawdau eraill bellach yn eu cyfarch (Rhif 10), neu bod disgresiwn yr Aelod Lleol galluogi galw'r mater i Bwyllgor os yw'n ystyried ei fod yn fater sydd o bwys cynllunio lleol.
 - 4.7 Dylid nodi fod rhif 8 (datblygiadau o 5 neu fwy o dai) wedi ei gadw o fewn y cynllun.

ARGYMHELLIAD:

Mabwysiadu'r addasiadau i'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio Adran 13 Atodiad 3 Rhan 11 Pennaeth Rheoleiddio yn unol â'r hyn a nodir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Atodiad 1

Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd

1. Ceisiadau cynllunio pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.
2. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan Aelodau Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.
3. Ceisiadau cynllunio a/neu gwrthwynebiadau/cefnogaeth i gais cynllunio a gyflwynir gan berthynas agos i Aelod Etholedig neu staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio. Diffinir "perthynas agos" yn y cyd-destyn yma fel mam neu dad, gwr neu wraig, partner, plentyn, brawd neu chwaer, nain neu daid, wyr neu wyres.
4. Ceisiadau cynllunio y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm wrthynt.
5. Cais am gyswriad i godi llinellau trydan sydd a chynhwysedd o 32KV neu fwy.
6. Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn y cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad y swyddogion.
7. Ceisiadau cynllunio y mae'r Pennaeth Amgylchedd yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.
8. Ceisiadau cynllunio am dai lle mae y nifer o dai sydd yn cael eu darparu yn 5 neu yn fwy
9. Ceisiadau cynllunio am ddatblygiad diwydiannol masnachol neu adwerthu sydd dros 500 metr sgwar ddarpariaeth adeilad neu adeiladau ble mae'r gofod llawr sydd i'w greu gan y datblygiad yn 1000 metr sgwar neu fwy; neu
10. Ceisiadau cynllunio am ddatblygiadau ar safle sydd yn 0.5 hectar neu fwy o ran maint
11. Ceisiadau am fwy na 5 carafan.
12. Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.

Diffinir 'ceisiadau cynllunio' fel: cais llawn, cais deiliaid ty, cais amlinellol, cais materion a gadwyd yn ol, cais adeilad rhestredig, cais Ardal Cadwraeth, cais i arddangos hysbysebion, cais mwynau a gwastraff, cais i ddi-ddymu neu amrywio amod(au), cais i ddi-ddymu neu amrywio Rhwymedigaeth Cynllunio, cais diwygiad ansylweddol.

Atodiad 2

PWYLLGOR	Pwyllgor Craffu Cymunedau
DYDDIAD	
TEITL	Gweithredu'r argymhelliad i addasu'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn sgil yr Ymchwiliad Craffu yn y maes Cynllunio.
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
PWRPAS	Cyflwyno'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio (Drafft) newydd i gynnwys yr addasiadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Craffu cyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

1. Cefndir:

- 1.1 Mae'n fwriad gofyn i'r Cyngor Llawn gefnogi argymhelliad y Pwyllgor Craffu i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio. Bu i Ymchwiliad Craffu gael ei gynnal ar y maes cynllunio yn ystod 2016-17. Un o'r meysydd oedd yn rhan o'r ymchwiliad hwn oedd y Cynllun Dirprwyo Cynllunio, sef y Cynllun sydd yn nodi pa geisiadau sydd yn cael eu dirprwyo i swyddogion perthnasol i'w penderfynu a pha geisiadau sydd angen eu hadrodd i'r Pwyllgor Cynllunio i'w penderfynu.
- 1.2 Yn mis Mawrth 2017, ac yn sgil gwaith a chanfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu, cafwyd argymhelliad gan y Pwyllgor Craffu i'r Aelod Cabinet y dylid addasu'r trothwyon yn y Cynllun Dirprwyo. Bydd addasu'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio angen cymeradwyaeth y Cyngor Llawn ar argymhelliad y Swyddog Monitro gan ei fod yn fater cyfansoddiadol. Fel rhan o'r broses yma ceisir cefnogaeth y Pwyllgor Craffu i ddiwygio'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio yn unol â'u hargymhellion gwreiddiol er mwyn sicrhau'r buddion a drafodwyd eisoes ac a amlinellir isod. Teimlir ei bod yn bwysig fod y Pwyllgor Craffu'n gweld allbwn gwaith yr ymchwiliad, cyn ei adrodd i'r Cyngor Llawn, gyda'r newidiadau a gymeradwywyd gan y Pwyllgor eisoes, wedi ei hymgorffori mewn Cynllun Dirprwyo diwygiedig.

2. Gwaith y Pwyllgor Craffu

- 2.1 Un o'r meysydd gwaith roedd y Pwyllgor Craffu yn dymuno edrych arno oedd y rhan o'r Cynllun Dirprwyo sydd yn berthnasol i geisiadau cynllunio. Mae'n debyg fod hyn yn deillio o bryderon sydd yn cael eu codi yn gyson gan aelodau, Cadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am hyd yr rhaglenni, hyd y Pwyllgorau, y nifer a mathau o eitemau sydd yn dod gerbron y Pwyllgor Cynllunio a pam fod rhai eitemau angen dod gerbron y Pwyllgor o gwbl. Mae pryder cyffredinol wedi ei fynegi nad yw'r drefn bresennol yn gwneud y defnydd gorau o amser y Pwyllgor a sicrhau eu bod yn delio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt.
- 2.2 Yn benodol i'r pwnc yma bu i'r ymchwiliad craffu ystyried:
 1. Beth yw blaenoriaethu'r Pwyllgor Cynllunio o safbwynt y ceisiadau sydd yn dod gerbron a'r amser a'r arbenigedd sydd ar gael?

2. Ydy'r trefniadau presennol yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i ddelio gydag a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddi-ddordeb iddynt heb orfod delio gyda materion sydd gyda dim mwy na diddordeb lleol iddynt?
 3. Os oes angen newid cynnwys/trothwyon y Cynllun Dirprwyo, sut gellir gwneud hynny?
 4. Beth fyddai'r budd i'r Pwyllgor Cynllunio...ac fyddai budd ehangach na budd i waith y Pwyllgor Cynllunio ei hun?
- 2.3 Er mwyn gwneud hyn fe ddarparwyd gwybodaeth i'r Ymchwiliad Craffu ei ystyried oedd yn ymwneud gyda:

3. Trefniadau presennol y Pwyllgor Cynllunio

- 3.1 Mae'r Pwyllgor Cynllunio yn cwrdd bob 3 wythnos ac ar gyfartaledd mae oddeutu 10 cais ar bob rhaglen ac yn ddiweddar roedd 16 cais ar yr agenda oedd yn golygu dechrau'r Pwyllgor yn y bore yn hytrach nac am 1yp. O ystyried y gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi eitemau Pwyllgor, yn ogystal â'r pwysau ar Aelodau a nifer uchel o swyddogion i baratoi o flaen llaw (a hyd cyfarfodydd) mae'n amlwg nad yw cael mwy na 10 eitem ar bob rhaglen yn ddelfrydol, yn enwedig os oes ceisiadau mawr ac/neu gynhennus. Mae'r meddylfryd hyn wedi ei gefnogi gan Gadeirydd a Chyn-Gadeirydd y Pwyllgor a'r Dirprwyo Swyddog Monitro ac yn gyffredinol fe gredir mai'r nifer delfrydol ac eitemau ar yr agenda yw 8.
- 3.2 Oherwydd gofynion y Cynllun Dirprwyo presennol mae pob agenda draft yn dechrau gyda nifer uchel iawn o geisiadau arno (rhwng 20-25) gyda'r angen wedyn i flaenoriaethu pa geisiadau fydd ar yr agenda terfynol. Rhaid blaenoriaethu ar sail nifer o faterion a risgiau megis: gallu penderfynu o fewn cyfnod statudol er mwyn cwrdd targedau cenedlaethol; penderfynu o fewn cyfnod statudol oherwydd gall yr ymgeisydd ofyn am ad-dalu'r ffi cynllunio os na wneir hyn; risg o apêl am ddiffyg penderfyniad o fewn yr amserlen; oblygiadau economaidd/grantiau (er nad yw'n fater cynllunio, mae'n bwysig i'r datblygwr ac i gyflawni datblygiad); pwysau gwaith ar yr holl swyddogion sydd yn ymwneud gyda'r broses ac Aelodau'r Pwyllgor. O bryd i'w gilydd mae angen wedi codi am Bwyllgor ychwanegol er mwyn dal fyny neu fel a welwyd yn Rhagfyr 2017 cynhaliwyd Pwyllgor drwy'r dydd.
- 3.3 Yn ogystal mae'r gwaith sydd yn gysylltiedig gyda pharatoi adroddiadau Pwyllgor wedi cynyddu yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf a hynny oherwydd yr angen am adroddiadau manylach er mwyn lleihau risg i'r Cyngor, cwrdd a'r gofynion polisi lleol a chenedlaethol ac i sicrhau fod yr holl wybodaeth berthnasol gan yr Aelodau wrth iddynt wneud eu penderfyniad. Cydnabyddir fod hefyd angen adroddiad mewn perthynas a materion dirprwyedig ond yn amlwg nid yw'r cyfyngiadau amserlen yn bodoli sy'n golygu fod penderfyniad amserol yn llawer mwy tebygol.

4. Y Cynllun Dirprwyo Presennol


- 4.1 Ar hyn o bryd, ac o safbwynt materion cynllunio yn unig, fe ddirprwyir yr hawl i benderfynu ar unrhyw fater sydd angen penderfyniad o dan y deddfau perthnasol (a nodir yn y 'Cynllun Dirprwyo i Bwyllgorau') i'r Pennaeth Rheoleiddio (sydd erbyn hyn wedi ei newid i Bennaeth Amgylchedd), ac eithrio'r isod fydd yn gyfrifoldeb i'r Pwyllgor Cynllunio (atodir copi llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol fel Atodiad 1):

- *Ceisiadau pan fydd y Cynghorydd y mae'r datblygiad arfaethedig yn ei ward neu unrhyw ddau aelod arall yn cyflwyno cais ysgrifenedig i'r Rheolwyr Cynllunio o fewn yr amserlen a sefydlwyd fel bod y mater yn cael ei gyfeirio i'w bennu gan y Pwyllgor Cynllunio. Dylai'r cais ysgrifenedig gynnwys rhesymau cynllunio clir ar gyfer gofyn i gais gael ei gyfeirio at Bwyllgor. Dylid anfon llythyr hysbysu i bob aelod lleol. Y cyfnod penodedig ar gyfer hysbysu fydd 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr hysbysu. Gall aelod lleol drafod cais gyda swyddogion cyn cyfeirio cais i Bwyllgor.*
- *Ceisiadau a gyflwynir gan Aelodau staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio.*
- *Ceisiadau y mae Asesiad Effaith Amgylcheddol ynghlwm iddynt.*
- *Cais am gydsyniad i godi llinellau trydan sydd â chynhwysedd 32KV neu fwy.*
- *Ceisiadau pan fydd tri neu fwy o sylwadau wedi eu derbyn o fewn cyfnod ymgynghori sydd yn groes i argymhelliad swyddogion.*
- *Ceisiadau y mae'r Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y dylid eu cyfeirio at Bwyllgor.*
- *Ceisiadau am ddatblygiadau preswyl ar gyfer 5 annedd neu fwy.*
- *Ceisiadau am ddatblygiad diwydiannol, masnachol neu adwerthu sydd dros 500m sgwâr.*
- *Ceisiadau am fwy na 5 carafán.*
- *Ceisiadau cynllunio llawn am fastiau telathrebu a chyfarpar.*

NODYN: fel mater o ymarfer da, bydd y Pennaeth Gwasanaeth yn cyfeirio unrhyw gais gan berthynas agos i aelod o staff cyfredol y Gwasanaeth Cynllunio i'r Pwyllgor ei benderfynu. I'r pwrpas yma diffinnir perthynas agos fel mam neu dad, gwr neu wraig, partner, plenty neu frawd neu chwaer.

- 4.2 Dylid nodi fod cyfrifoldeb ar pob prif swyddog o dan hawliau cyffredinol Cynllun Dirprwyo Swyddogion o fewn y Cyfansoddiad (Adran 13, Atodiad 3) i ystyried cyn penderfynu ar unrhyw gais dirprwyedig os dylid ei gyfeirio at Bwyllgor i'w benderfynu. Fydd y cyfrifoldeb yma yn parhau yn dilyn unrhyw newid penodol i'r cynllun dirprwyo Cynllunio.
- 4.3 Darparwyd siart i'r Pwyllgor Craffu oedd yn dangos y rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio ac amlygwyd mai'r rheswm mwyaf oedd derbyn 3+ o sylwadau yn groes i argymhelliad swyddog. Gall y gwrthwynebiadau hyn i gyd ddod o'r un cyfeiriad post neu e-bost ac/neu fod yn anhysbys ac o bosibl yn amherthnasol i'r achos neu i gynllunio. Mae hyn hefyd yn golygu fod datblygiadau bach megis estyniadau i dai ac ati'n gorfod cael eu penderfynu gan y Pwyllgor.
- 4.4 Yn ystod blwyddyn 2015/16 mae'r prif resymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor fel a ganlyn:

Rhesymau dros gyflwyno ceisiadau i'r Pwyllgor Cynllunio



Nodyn: rhaid cofio nad yw'r trothwyon hyn (na'r rhai presennol) yn gweithredu'n unigol – mae'n bosib fod cais sydd gerbron y Pwyllgor ar yr agenda oherwydd e.e. nifer o dai, gwrthwynebiadau a'i fod wedi ei alw i mewn gan yr Aelod Lleol.

5. Y sefyllfa yn Genedlaethol a threfniadau sampl o Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yng Ngogledd Cymru -

5.1 Yn ystod 2016/17 a 2015/16 daeth 9% o holl geisiadau cynllunio Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd gerbron y Pwyllgor Cynllunio o'i gymharu gyda cyfartaledd Cymru oedd yn 6%. Mae hyn yn gyfystyr gyda oddeutu 100 o geisiadau'r flwyddyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor dros 15 o gyfarfodydd (gyda nifer o'r ceisiadau yma yn cael eu gohirio a'u hail-gyflwyno).

5.2 Edrychwyd ar drefniadau dirprwyo Awdurdodau Cynllunio Lleol eraill yn y Gogledd a gwelwyd fod meini prawf sydd yn gyffredin ond ddim yn gwbl gyson rhwng bob ACLI megis:

1. Amgylchiadau ble gall Aelod Lleol alw'r cais gerbron y Pwyllgor
2. Amgylchiadau ble mae gan aelod o staff neu Aelod ddiddordeb personol yn y cais
3. Ceisiadau ble mae Aseiad o Effaith Amgylcheddol ynghlwm
4. Ceisiadau ble mae'r Pennaeth yn ystyried y dylid eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad
5. Fod y cais yn disgyn o fewn y diffiniad statudol o gais 'mawr' (major)

- 6. Fod nifer benodol (sy'n amrywio o ACLI i ACLI) o wrthwynebiadau ysgrifenedig wedi eu derbyn
 - 7. Fod y cais wedi ei gyflwyno gan y Cyngor neu ar dir y Cyngor
- 5.3 Nid yw'r mwyafrif o'r ACLI a edrychwyd arnynt yn nodi maint/math o ddatblygiad neu nifer o unedau fel trothwy fel mae ACLL Gwynedd yn ei wneud ond yn hytrach yn defnyddio'r diffiniad statudol o geisiadau 'mawr'. Mae trothwyon Cyngor Gwynedd yn is na hyn ac yn rhagnodol iawn o safbwynt niferoedd sylwadau, nifer o dai a charafanau ac mae'n debygol fod ei gynnwys wedi dyddio ac yn gyffredinol yn adlewyrchu'r amgylchiadau/diddordeb oedd yn bodoli ar adeg ei lunio. Erbyn hyn mae natur y ceisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r ACLI wedi newid cryn dipyn o safbwynt math, maint a nifer.
- 5.4 Wrth ystyried hyn amlygwyd fod modd cynnig newidiadau syml i'r trothwyon dirprwyo fyddai unai yn lleihau'r nifer ar bob agenda a'r holl waith cysylltiedig ac/neu yn sicrhau fod y ceisiadau sydd angen blaenoriaeth a sylw'r Pwyllgor ar yr agenda heb orfod oedi yn ddiangen gan leihau risgiau a sicrhau lefelau perfformiad. Byddai hefyd yn fodd i geisio lleihau'r nifer a gyflwynir i'r Pwyllgor er mwyn adlewyrchu y cyfartaledd Cenedlaethol ac hwyluso penderfyniadau cyflymach.

6. Trafodaeth y Pwyllgor Craffu:

- 6.1 Ar sail y canran uchel o geisiadau sydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a'r effaith cysylltiedig o wneud hyn (fel a nodir uchod), cefnogwyd yr angen i sicrhau fod y Pwyllgor Cynllunio yn canolbwyntio ar ddelio gyda materion sydd o wir ddiddordeb iddynt yn unig ac y byddai hyn hefyd yn sicrhau'r defnydd gorau o'r amser a'r arbenigedd sydd ar gael gan hefyd osgoi'r risgiau posibl a amlinellir uchod.
- 6.2 Er mwyn gwneud hyn, cefnogwyd y bwriad i newid y Cynllun Dirprwyo Cynllunio a'i selio ar drothwyon/diffiniad o geisiadau 'mawr' gyda addasiadau lleol o safbwynt nifer tai (5 yn lle 10) ac hefyd datblygiad ar safle o faint penodol (0.5 hectar yn lle 1 hectar). O safbwynt ceisiadau mwynau a gwastraff ni ystyrir fod angen nodi rhain yn unigol gan y bydd y trothwyon eraill a awgrymir yn golygu y bydd y ceisiadau mawr neu sydd o ddiddordeb yn dod gerbron y Pwyllgor beth bynnag.
- 6.3 Roedd y Pwyllgor Craffu yn gefnogol i beidio cael trothwy ar gyfer nifer o ohebiaeth oedd ei angen yn groes i argymhelliad y swyddog er mwyn cyflwyno cais i Bwyllgor, gan fod hyn wedi ei ddangos i fod yn cyfrannu yn sylweddol tuag at geisiadau oedd mynd gerbron y Pwyllgor, oedd heb fwy na diddordeb lleol iddynt. Cydnabwyd a chefnogwyd fod hawl yr Aelod Lleol neu dau aelod arall i alw cais i Bwyllgor o dan amgylchiadau penodol yn parhau fel y sefyllfa bresennol ac ystyriwyd fod hyn yn dderbyniol. Yn ogystal, derbyniwyd y byddai'r holl ohebiaeth a dderbynnir ar gais ac sydd yn berthnasol i gynllunio yn parhau i gael sylw teilwng a phriodol fel rhan o'r asesiad dirprwyedig.
7. **Canfyddiadau'r Ymchwiliad Craffu -**
- 7.1 Yn seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu gwnaethpwyd y canfyddiad fod *'trothwyon Cynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd i weld yn isel o'i gymharu gyda sefydliadau eraill ac fe amlygir hynny drwy nifer y ceisiadau sy'n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio.'* Tystiolaethwyd hyn gan berfformiad cymharol Cymru 2015-16 (sydd hefyd yn wir ar gyfer 2016-17). Ar y sail yma

argymhellodd y Pwyllgor Craffu fod trothwyon y Cynllun Dirprwyo Cynllunio fel oedd wedi ei drafod a'i gefnogi gan y Pwyllgor Craffu. Mae drafft o'r Cynllun Dirprwyo arfaethedig cyflawn wedi ei gynnwys fel Atodiad 2 ac mae hwn yn cyfeirio at yr hawliau i alw i mewn, cyfeirio ceisiadau gan staff ac aelodau, ymarfer da ac ati.

7.2 Rhagwelir y byddai buddion amlwg ac eang o weithredu'r newidiadau drwy:

- Llai o geisiadau ar yr rhaglen a pheidio gorfod blaenoriaethu cymaint
- Penderfyniadau mwy amserol yn debygol o:
 - Wella profiad y cwsmer
 - Lleihau'r risgiau i'r Cyngor (apel ac ad-dalu ffioedd)
- Llai o bwysau gwaith ar Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio a chyfarfodydd byrrach
- Pwyllgor Cynllunio yn gallu delio a chanolbwyntio ar geisiadau sydd o wir ddiddordeb iddynt
- Llai o bwysau ar yr Uned Gyfieithu, Uned Gefnogol, Swyddogion Cynllunio a'r holl swyddogion eraill sydd yn cefnogi'r broses
- Alluogi'r Gwasanaeth Cynllunio i gynnal a gwella perfformiad
- Ryddhau amser Swyddogion Cynllunio i ganolbwyntio ar geisiadau cynllunio eraill (sef 91% o'r holl geisiadau) er gwella profiad holl gwsmeriaid y Gwasanaeth Cynllunio

8. **Amserlen Berthnasol:**

8.1 Cyflwyno'r newid i'r Cyngor Llawn am eu cefnogaeth ar argymhelliad y Swyddog Monitro yn y cyfarfod blynyddol 3 Mai 2018.

8.2 Gweithredu'r newid yn fuan wedi hynny a chyn Medi 2018 gan fanteisio ar gyfnod yr Haf i godi ymwybyddiaeth a rhoi'r trefniadau priodol yn eu lle.

9. **Casgliadau**

9.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu gadarnhau ac chefnogi'r Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig yn Atodiad 2, sydd yn cynnwys yr addasiadau sydd eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth, cyn bod y cynllun yn cael ei adrodd i'r Cyngor Llawn ar argymhelliad y Swyddog Monitro.

10. **Atodiadau:**

Atodiad 1 – Cynllun Dirprwyo Cynllunio presennol

Atodiad 2 – Drafft Llawn o'r Cynllun Dirprwyo Cynllunio arfaethedig

Adran Amgylchedd / Environment Department

Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth & Chefn Gwlad
 Planning, Public Protection, Transportation & Countryside

Gwasanaeth Cynllunio / Planning Service

Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA

01766 771000

cynllunio@gwynedd.llyw.cymru

www.gwynedd.llyw.cymru



Gofynnwch am/Ask for: Rhys Cadwaladr

Cyng/Cllr Dafydd Owen

6 Lôn Groes

Rachub

Bangor

Gwynedd

LL57 3EU

Eich Cyf/Your Ref:

22-01-2020

Annwyl/Dear Cyng/Cllr Owen

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and County Planning Act 1990

Rhif Cais / Application No.: C19/1170/13/LL

Lleoliad / Location: Land At Tanysgafell Farm, Bethesda, LL57 4AJ

Bwriad / Proposal: Trosi ac estynnu adeiladau amaethyddol segur i uned wyliau hunan gynhaliol ynghyd a chreu thrac mynediad a ardal parcio cerbydau / Conversion and extension to derelict agricultural buildings to self contained holiday unit together with creation of access track and vehicle parking area.

Mae'r cais cynllunio a ddisgrifir uchod wedi ei dderbyn yn y swyddfa hon a byddwn yn ddiolchgar o dderbyn eich sylwadau ar y cais o fewn **16 diwrnod** o ddyddiad y llythyr hwn.

Gallwch weld y cais ar safle we'r Cyngor drwy ddilyn y dolenni o dan y pennawd 'Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu'. Bydd y manylion sydd ar gael ar ein gwefan yn cael eu diweddarau yn rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau/diwygiadau, yr adroddiad a'r penderfyniad ar y cais. Mae croeso i chwi hefyd drafod y cais gyda'r swyddog achos os dymunwch.

Sylwch: os anfonwyd y llythyr yma atoch drwy e-bost gallwch gyflwyno eich sylwadau yn hawdd ac yn gyfleus drwy glicio 'Ateb' ar yr e-bost hwnnw.

.....

A planning application as described above has been received at this office and I would be grateful if you could provide me with your observations within **16 days** of the date of this letter.

Details of the planning application can be viewed on the Council's website by following the links from the heading 'Planning and Building Control'. The details available on our website will be updated regularly to include changes/amendments, the report and the decision pertaining to the application. You are also welcome to discuss the application with the case officer should you desire.

Please note: if this letter was sent to you by e-mail you can send us your observations quickly and easily by clicking 'Reply' on that e-mail.

Yn gywir / Yours faithfully

Cara Owen

Rheolwr Cynllunio / Planning Manager

Unfiled - Message (HTML)

File Message Attachments Tell me what you want to do...

Dydd Mawrth 28/01/2020 11:51

Owen Cara (AMG)

To: Owen Cara (AMG)

emails_Communication-4211-202001221627.pdf
106 KB

https://gwynedd-planning.tascomi.com/applications/index.html?is=viewAll&area=Email&app=cat&en_id=49395

Apps Google Earth Google Tascomi google translate G

Pre Apps Applications Appeals Enforcement Asset Constraints Contacts Locations GIS Committee Reporting Help Delych Wyn I

Email Edit #C19/170/13/LL

Home Application #C19/170/13/LL Email View

To Do:

Email Record

Email Date	22-01-2020 16:27:57	Email To	cynghorydd.dedyskover@gwynedd.llyw.cymru
Email From	noreply@tascomi.com	Email File	Download
Email Subject	YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO/PLANNING CONSULTA'	Communication Type	[App] Llythyr Ymgynghori Cynghorydd
Email Body	<p>Anwyl Syr/Madam</p> <p>Hoffwn eich hysbysu bod y cais cynllunio a ddiogfirf uchod wedi'i dderbyn a byddwn yn ddiolchgar i chi gyflwyno eich sylwadau cyn 16 diwrnod o ddyddiad yr eboest hwn.</p> <p>Amgylt crynodeb o fanylion y cais oed gallwch weld manylion llawn y cais a chyflwyno eich sylwadau ar-lein ddeyr ddiwrnod yn ôl y system Ddiyn a Darganfydd. Bydd y manylion y cais sydd ar gael ar ein gwefan yn cael ei ddiweddaru yn rheolaidd i gynnwys unrhyw newidadau, drwygiadau a' penderfyniad.</p> <p>Yn gywir</p>		

> Reference #C19/170/13/LL

Adran Amgylchedd / Environment Department

Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd, Trafnidiaeth & Chefn Gwlad
 Planning, Public Protection, Transportation & Countryside

Gwasanaeth Cynllunio / Planning Service

🏠 Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA
 ☎ 01766 771000
 ✉ cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
 🌐 www.gwynedd.llyw.cymru



Gofynnwch am/Ask for: Rhys Cadwaladr

Eich Cyf/Your Ref:

Y Deiliad / The Occupier
 Garnedd Tanysgafell
 Coed Y Parc
 Bethesda
 Bangor
 Gwynedd
 LL57 4AJ

22-01-2020

Annwyl Syr / Madam / Dear Sir / Madam

Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 / Town and County Planning Act 1990

Rhif Cais / Application No.: C19/1170/13/LL

Lleoliad / Location: Land At Tanysgafell Farm, Bethesda, LL57 4AJ

Bwriad / Proposal: Trosi ac estynnu adeiladau amaethyddol segur i uned wyliau hunan gynhaliol ynghyd a chreu thrac mynediad a ardal parcio cerbydau / Conversion and extension to derelict agricultural buildings to self contained holiday unit together with creation of access track and vehicle parking area.

Mae'r cais cynllunio a ddisgrifir uchod wedi ei dderbyn ac pe baech yn dymuno gwneud sylwadau ar y cais dylech wneud hynny o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr hwn.

Gallwch weld manylion y cais cynllunio ar wefan y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunio drwy glicio ar: **'Gweld ceisiadau cynllunio (Dilyn a Darganfod)'** > **'Chwilio am gais cynllunio'** a theipio rhif y cais yn y blwch perthnasol. Bydd y wybodaeth sydd ar gael ar y we yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd i gynnwys unrhyw newidiadau/diwygiadau, yr asesiad a'r penderfyniad.

Pe baech yn dymuno cyflwyno sylwadau ar y cais cynllunio yna gallwch wneud hynny ar y wefan drwy ddilyn y cyfarwyddiadau uchod i weld manylion y cais ac wedyn clicio ar y pennawd **'Gwneud sylw ar y cais yma'**. Mae hefyd modd gwneud trefniadau i weld y ffeil yn y swyddfa a gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio i drefnu hyn. Noder nad yw swyddogion yn darparu ymateb i sylwadau sydd wedi eu derbyn gan unigolion ar gais ac hefyd y bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn wybodaeth gyhoeddus fydd yn cael ei roi ar y ffeil gynllunio.

Ceir gwybodaeth bellach am sut i 'Roi sylw ar gais cynllunio' a 'Ffactorau all effeithio cais' ar wefan www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunio.

Mewn rhai amgylchiadau bydd ceisiadau yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad. Pe bai'r cais yn gais Pwyllgor a'ch bod wedi cyflwyno sylwadau ac yn dymuno siarad yn y Pwyllgor yna mae gwybodaeth am sut i drefnu hyn ac beth yw trefniant y Pwyllgor Cynllunio i'w gael ar wefan www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunio a chlicio ar y pennawd **'Pwyllgor Cynllunio'**.

.....

The planning application described above has been received, and if you wish to submit comments on this application you must do so within 21 days of the date of this letter.

You may see details of the planning application on the Council website, www.gwynedd.llyw.cymru/planning, by clicking on: '[View planning applications \(Track and Trace\)](#)' > '**Search for a planning application**' and type the application number in the relevant box. The information on the website will be updated regularly to include any changes/amendments, along with the assessment and the decision.

If you wish to submit comments on the planning application, you may do so on the website by following the instructions above to see the application details and clicking on the heading '**Comment on this application**'. You can also arrange to see the file in the office by contacting the Planning Service. Please note that officers cannot provide a response to comments received from individuals by request, and that any comments received will be placed in the public domain by way of their inclusion in the planning file.

Further information on how to 'Comment on planning applications' and 'Factors which may affect a planning application' can be found on www.gwynedd.llyw.cymru/planning.

In some instances, applications are presented to the Planning Committee for determination. If an application upon which you have commented were to go before the Committee and that you wish to speak in the meeting, information on how to arrange this and details of the Planning Committee's procedures can be found on www.gwynedd.llyw.cymru/planning by clicking on '[Planning Committee](#)'.

Yn gywir / Yours faithfully



Cara Owen
Rheolwr Cynllunio / Planning Manager

Adran Amgylchedd / Environment Department
Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd /
Planning and Public Protection Service
 Uwch Reolwr / Senior Manager - Gareth Jones



«MAILING_NAME_AND_ADDRESS»

Cais Rhif / Application Number: «Apn_Number»
 Cofrestrwyd / Registered: «Registration_Date»
 Swyddog / Officer: «Case_Officer»

«Current_Date»

Bwriad / Proposal: «Dev_L»
 Lleoliad / Location: «Location»

Annwyl Syr/Madam,

DEDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

Mae'r cais cynllunio a ddisgrifir uchod wedi ei dderbyn ac os ydych am wneud sylwadau ar y cais, dylech wneud o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y llythyr hwn unai ar-lein www.gwynedd.llyw.cymru/cynllunio neu yn ysgrifenedig. Dylai sylwadau ar geisiadau cynllunio gynnwys ystyriaethau materol cynllunio yn unig sy'n cynnwys; Cydymffurfio gyda'r Cynllun Datblygu, dylunio, effaith ar dai cyfagos megis colli golau neu breifatrwydd sylweddol, diogelwch ar y briffordd neu materion eraill a all fod yn ystyriaethau cynllunio o bwys. Nid ydynt yn cynnwys pethau megis; Colli golygfa, anghydfod ynghylch perchenogaeth tir, cymeriad yr ymgeisydd, materion moesol neu colli gwerth eiddo. Noder na fydd Swyddogion yn ymateb i sylwadau ar ymateb sydd yn cael ei gyflwyno ar gais Cynllunio. Pwysleisir mai dogfennau cyhoeddus yw ffeiliau cynllunio ac, o'r herwydd, bydd eich sylwadau a'r holl wybodaeth yn gyhoeddus.

Gallwch weld manylion y cais ar safle Dilyn a Darganfod Ceisiadau Cynllunio'r Cyngor a gallwch gysylltu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio i gael gwybod os yw'r cais wedi ei benderfynu neu yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad. Bydd y penderfyniad wedyn ar gael i'w weld ar y safle we. Os yw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor, mae trefn wedi ei sefydlu ar gyfer siarad yn y Pwyllgor ac mae canllawiau ar gyfer hyn hefyd i'w gweld ar y we.

Rhoddir hawl i siarad i un person o blaid ac un person yn erbyn. Os bydd mwy nac un cais i siarad, y person cyntaf ysgrifennodd i ddatgan bwriad i siarad, (gwrthwynebwr neu gefnogwr), fydd gyda'r hawl i siarad os na fydd cytundeb ar siaradwr arall o'u grwp gwrthwynebu neu gefnogi, sydd hefyd wedi cyflwyno sylwadau. Dylid pwysleisio bod hawl ymgeisydd nei ei asiant yn goresgyn hawl siaradwr o blaid os dymunent siarad. Mae'n ofynnol i chwi ddatgan eich dymuniad i siarad yn ysgrifenedig, drwy lythyr i'r cyfeiriad isod neu ebost i Cynllunio@gwynedd.gov.uk cyn gynted a bo modd a dim hwyrach na 12:00 y dydd Gwener cyn y Pwyllgor.

Mae copïau o'r Canllawiau Gweithredol a Threfniant Pwyllgor sy'n egluro'n llawn y trefniant a'r weithdrefn ar gael ar safle we'r Cyngor; www.gwynedd.llyw.cymru/Cynllunio.

Bydd manylion y cais ar gael ar safle Dilyn a Darganfod Ceisiadau Cynllunio'r Cyngor a bydd y manylion yn cael eu diweddarau yn rheolaidd gydag unrhyw newidiadau / diwygiadau / penderfyniad, neu gallwch weld y ffeil yn y Swyddfa Cynllunio drwy ffonio'r Gwasanaeth Cynllunio i drefnu dyddiad ac amser cyfleus.

.....

Gwefan / Web site: www.gwynedd.llyw.cymru
 E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
 E-mail: Planning@gwynedd.llyw.cymru
 Ffôn / phone: 01766 771 000

Swyddfa'r Cyngor
 Gwasanaeth Cynllunio
 Ffordd y Cob
 Pwllheli
 Gwynedd
 LL53 5AA

Dear Sir/Madam,

TOWN AND COUNTRY PLANNING ACT 1990

The planning application described above has been received and if you wish to make observations on the application, you should do so within 21 days of the date of this letter either on-line at www.gwynedd.llyw.cymru/Planning or in writing. Representations on planning applications should only include material planning matters which include; Compliance with the Development Plan, design, impact on neighbouring properties such as severe loss of light or privacy, highway safety or other matters which may be material planning considerations. However, they do not include things such as; loss of view, land ownership disputes, personal character of the applicant, moral issues or loss of value of property. Note that Officers will not respond to comments submitted on a planning application.

It is emphasized that planning files are public documents and as such your comments and all information will be public knowledge.

You can view the application on the Council's Track and Trace system and you can contact the Planning Service to find out if the application has been decided or is to be submitted to the Planning Committee to be decided. The decision will then be available to view on the website. If it is to be submitted to the committee, a procedure has been established for the right to speak at the committee and guidelines for this are also available on the web.

The right to speak is given to one person in support and one person against. If there is more than one application to speak, the first person who wrote informing of their intention to speak, (objector or supporter), will have the right to speak unless they agree to a speaker from within their group of objectors or supporters who has also submitted observations. It should be emphasised that the right of the applicant or their agent to speak over-rides the right of a supporter. It is essential that you declare your wish to speak in writing by letter to the address below or email Planning@gwynedd.gov.uk as soon as possible and no later than 12:00 on the Friday before the Committee.

Copies of the Operational Guidelines and Committee Procedure which explain in full the procedure are available on the Council's web site www.gwynedd.llyw.cymru/Planning

Details of the application will be available on the Council's Track and Trace system and the details will be updated regularly with any changes / amendments / decision or you can view the file at the Planning Office by phoning the Planning Service to arrange a convenient date and time.

Yr eiddoch yn gywir / Yours faithfully



RHEOLWR RHEOLAETH DATBLYGU / DEVELOPMENT MANAGEMENT MANAGER

Gwefan / Web site: www.gwynedd.llyw.cymru
E-bost: Cynllunio@gwynedd.llyw.cymru
E-mail: Planning@gwynedd.llyw.cymru
Ffôn / phone: 01766 771 000

Tud. 37

Swyddfa'r Cyngor
Gwasanaeth Cynllunio
Ffordd y Cob
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AA

https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?language=cy&fa=getReceivedWeeklyList

Mewnwyd Hafan Council Direct

Ffeil Golygu Gweld Fferynnau Offer Help

English

Cartref / Rhestr Wythnosol: Ceisiadau wedi eu Cofrestru

Rhestr Wythnosol: Ceisiadau wedi eu Cofrestru

Defnyddiwch y ffurflen isod i chwilio am Restr Wythnosol o geisiadau sydd wedi eu Cofrestru

Wythnos: [Chwilio](#)

Cais	Manylion y Lleoliad	Bwriad	Ward	Cymuned	Manylion Ar Gael	Agor y Cais
C20/0024/30/R A	Waen, Pwllheli, LL53 8AD	Rhyddhau amod 4 (Manylion Ffiniau) o ganiatâd cynllunio C19/0726/30/LL ar gyfer adeiladu modurdy domestg. Discharge of condition 4 (Boundary Details) of planning permission C19/0726/30/LL for the erection of a domestic garage.	Aberdaron	Aberdaron	la	Gweld
C20/0023/33/D T	Pen Y Gongl, Pwllheli, LL53 7YR	Codi estyniad unllawr i ddarparu ystafell wely ac ystafell ymolchi hygrych. Erection of single storey extension to provide bedroom and accessible bathroom facility.	Efailnewydd / Buan	Buan	la	Gweld
C20/0022/42/D T	Tan Y Mynydd, Pwllheli, LL53 6LN	Dymchwel storfa allanol bresennol, addasiadau i'r prif dŷ presennol ac estyniad rhanol unllawr, rhannol deulawr, i'r ochr a'r cefn. Demolition of existing external store, alterations to existing main house and part single storey, part...	Nefyn	Nefyn	la	Gweld
C20/0017/42/R A	Terfyn, Pwllheli, LL53 6BA	Cais i ryddhau amod 4 (deunyddiau allanol) o ganiatâd cynllunio C19/0982/42/LL ar gyfer estyniad ac adnewyddu. Application to discharge condition 4 (external materials) of planning permission C19/0982/42/LL for extension and refurbishment.	Morfa Nefyn	Nefyn	la	Gweld
C20/0016/39/L L	Tŷ'n Y Mur Camping Site, Pwllheli, LL53 7UL	Newid defnydd rhan o gae pori amaethyddol ar gyfer storio carafanau teithiol / Change of use of section of agricultural grazing land for storage of touring caravans	Abersoch	Llanengan	la	Gweld

200%